------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

**Ar 27 Mehefin 2019, penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o ddechrau'r cyfarfod hwn (eitem 1 ac eitem 2).**

## 1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21: Dull o gynnal gwaith craffu

(09.00-09.15)

Papur 1 - Dull o gynnal gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

## 2 Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2019-20: Trafod yr adroddiad drafft

(09.15-09.45)

Papur 2 - Adroddiad drafft

## 3 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.45)

## 4 Papurau i'w nodi

(09.45)

**4.1 PTN1 - Llythyr at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd - Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 - 27 Mehefin 2019**

(Tudalen 1)

**4.2 PTN2 - Llythyr at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Suzy Davies AC - Diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 - 27 Mehefin 2019**

(Tudalen 2)

## 5 Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(09:45 - 10:30) (Tudalennau 3 - 23)

Vaughan Gething AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Sioned Rees, Uwch Swyddog Cyfrifol, Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Rhian Williams, Arweinydd Polisi, Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Briff Ymchwil

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.30)

## 7 Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(10.30-10.45)

## 8 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2019-20: Cynllun Diswyddo Gwirfoddol

(10.45-10.55) (Tudalennau 24 - 34)

Papur 3 - Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad - Cynllun Diswyddo Gwirfoddol - 19 Mehefin 2019

## 9 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): Trafod yr adroddiad drafft

(10.55–11.05) (Tudalennau 35 – 60)

Papur 4 – Adroddiad drafft ar y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) – Saesneg yn unig

## 10 Y Cod Ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

(11.05–11.20) (Tudalennau 61 – 79)

Papur 5 – Y Cod Ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Papur 6 – Llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru – 18 Mehefin 2019

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Eitem 4.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

27 Mehefin 2019

Annwyl Llyr,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018.

Dyma ymateb i'ch cwestiynau bob un yn ei dro:

1) Cafodd Busnes Rhyngwladol Cymru ei hepgor o gam dynodi 2 gan nad oedd wedi cael ei gategoreiddio'n ffurfiol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (yr ONS). Mae'r gwaith o gategoreiddio Busnes Rhyngwladol Cymru yn ffurfiol yn mynd rhagddo yn barod ar gyfer Gorchymyn Dynodi 2019. Disgwylir iddo gael ei roi i'r sector Llywodraeth Ganolog.

2) Nid yw Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru – Tribiwnlysoedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu categoreiddio fel uned sefydliadol ar wahân gan yr ONS. Felly, ystyrir eu bod yn rhan o Lywodraeth Cymru a bod eu hadnoddau wedi cael eu cynnwys eisoes yng nghyllideb adnoddau, cynnig cyllidebol, a chyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru.

   Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi cadarnhau mai camgymeriad yw rhestru tribiwnlysoedd ar ganllaw categoreiddio'r ONS, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Rydym wedi gofyn bod y canllaw yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl.

3) Ar ôl ystyried yr ymatebion a ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am fy nghasgliadau, a fydd yn cynnwys eglurhad ynghylch unrhyw gyrff a fydd yn cael eu hepgor, ac effeithiau fy nghasgliadau lle bo hynny'n briodol.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans Ac/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Suzy Davies AC
Suzy.Davies@assembly.wales

27 Mehefin 2019

Annwyl Suzy,

Yn ystod Cwestiynau Busnes yr wythnos diwethaf, gofynnoch gwestiwn ynghylch yr ymgynghoriad ar ddiwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhan o'r ymarfer i gysoni ffiniau cyllidebu a chyfrifyddu – sef argymhelliad gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad yn dilyn ei ymchwiliad i Brosesau Arferion Gorau Cyllidebu yn 2015. Dyma weithdrefn dechnegol a fydd yn caniatáu i adnoddau cyrff yn y sector llywodraeth ganolog gael eu cynnwys mewn cynnig cyllidebol a gyflwynir o dan adran 125 neu 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Oherwydd natur dechnegol y Gorchymyn hwn, mae'r ymgynghoriad yn gyfyngedig i'r cyrff hynny y cynigir eu bod yn cael eu dynodi yn y Gorchymyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyllid.

Cafodd yr ymgynghoriad ei anfon ar 1 Mai i'r cyrff hynny y cynigir eu eu dynodi yn y Gorchymyn. Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn cyfarfod â'r rheini yr ymgynghorir â nhw i drafod unrhyw faterion y maent am eu codi neu bwyntiau y maent am iddynt gael eu hegluro, cyn ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad erbyn 31 Gorffennaf.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn categoreiddio'r holl gyrff, y cynigir eu dynodi, fel rhai yn y sector llywodraeth ganolog, neu disgwylir iddi eu categoreiddio felly. Dyma'r ffon fesur y mae fframwaith gwariant cyhoeddus y DU yn ei defnyddio ar gyfer sut y mae gweithgarwch cyllidebol cyrff cyhoeddus yn cael ei weithredu a'i lywodraethu.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

19 Mehefin 2019

Annwyl Llyr


## Y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

Diolch am eich llythyr dyddiedig **24 Mai 2019**, yn ceisio rhagor o wybodaeth am gynllun ymadael gwirfoddol Comisiwn y Cynulliad.

Mae eich llythyr yn gofyn inni roi gwybodaeth am y trefniadau cyffredinol ar gyfer llywodraethu a monitro'r cynllun ymadael gwirfoddol. Gweler y wybodaeth hon yn Atodiad 1.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth, mae croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

# Atodiad 1

1. **Rhagor o wybodaeth am y cynnig a drafododd y Bwrdd Gweithredol a / neu Gomisiwn y Cynulliad cyn penderfynu cyflwyno'r cynllun ymadael;**

Penderfynodd y Comisiwn yn ffurfiol i fwrw ymlaen â Chynllun Ymadael Gwirfoddol ar 5 Tachwedd 2018. Yn ei gyllideb ar gyfer 2019-20, a osodwyd ar ffurf drafft ar 30 Medi, roedd y Comisiwn wedi nodi ei fod yn ystyried yr opsiwn hwn.

Cytunodd y Comisiwn â'r camau roedd y Bwrdd Gweithredol wedi argymell y dylai eu cymryd. Yn y papur a gyflwynwyd i'r Comisiwn ar 5 Tachwedd, nodwyd y canlynol:

> Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi llwyddo i fodloni'r galw cynyddol am adnoddau heb fynd uwchlaw'r 491 o swyddi a bennwyd ar gyfer y sefydliad. Rydym wedi llwyddo i wneud hyn drwy ysgwyddo rhywfaint o'r pwysau drwy ddefnyddio'n hadnoddau presennol, blaenoriaethu'n well a herio'r angen i greu rolau cyfatebol wrth lenwi swyddi gwag. O ganlyniad, rydym wedi gallu ailddyrannu deg o swyddi a adawyd yn wag oherwydd trosiant naturiol, i rolau a chanddynt flaenoriaeth uwch, ac a gododd yn bennaf oherwydd Brexit a Newid Cyfansoddiadol. Fodd bynnag, ni allwn ddibynnu'n llwyr ar y drefn hon am gyfnod amhenodol, a thra bo'r uchafswm o 491 o swyddi'n parhau, bydd angen i'r Comisiwn ddod o hyd i atebion eraill i fodloni'r galw am adnoddau a sgiliau.
>
> Dyma sut y diffinnir amcanion y Cynllun Ymadael Gwirfoddol:

- Caniatáu i'r sefydliad ymateb i newidiadau yn y math o sgiliau sydd eu hangen arno;
- Gwella effeithlonrwydd y gweithlu;
- Hwyluso newid sefydliadol;
- Cyflawni arbedion hirdymor pan fo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fynd i'r afael â diffyg sgiliau.

Cytunodd y Comisiynwyr i fwrw ymlaen â Chynllun Ymadael Gwirfoddol a gofynnodd i'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Cyfrifyddu ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cyllid i roi gwybod iddynt am y penderfyniad hwn.

2. **Y meini prawf a ddefnyddiwyd i ddewis pwy fyddai'n gadael y sefydliad;**

Rhestrir amcanion y Cynllun uchod. Mae manylion y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ceisiadau i'w gweld yn Atodiad 2. Cafodd y meini prawf eu cynnwys fel rhan o ganllawiau'r Cynllun a roddwyd i staff a rheolwyr llinell.

3. **Sut y defnyddiwyd yr adolygiad o gapasiti Comisiwn y Cynulliad wrth ddatblygu'r Cynllun ac i ba raddau yr ystyriwyd gwaith cynllunio'r gweithlu i sicrhau nad oedd gostyngiadau yn nifer y staff yn effeithio'n ormodol ar adrannau;**

Edrychodd yr Adolygiad o  Gapasiti'n fanwl ar strwythur a dosbarthiad presennol adnoddau'r Comisiwn i chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio sgiliau a phrofiad yn fwy effeithiol ac i ystyried hefyd a allai fod yn fuddiol ad-drefnu elfennau o'r sefydliad.

Er enghraifft, nododd yr Adolygiad o Gapasiti yr angen i adolygu gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu. Un o gasgliadau'r adolygiad hwnnw oedd bod angen sgiliau a phrofiadau penodol newydd yn y maes hwn ac mae'r Cynllun wedi caniatáu inni ymateb i hyn.

Mae'r amcanion a'r meini prawf dethol y seiliwyd y Cynllun arnynt, yn amlwg yn cyd-fynd â chanlyniadau'r adolygiad o gapasiti ac mae'r Cynllun wedi rhoi cyfle i Gomisiwn y Cynulliad ddechrau mynd i'r afael â'r gwaith o ad-drefnu gwasanaethau a gwerthuso'r setiau sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol. Cynllunio'r Gweithlu oedd yr ystyriaeth bwysicaf yn nhrafodaethau'r rheolwyr llinell, ac fel rhan o'r meini prawf gofynnwyd i reolwyr llinell:

> *Os bydd yr unigolyn yn gadael, i ba raddau y gallai effeithlonrwydd y gweithlu wella'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol*

Gofynnwyd iddynt hefyd:

> *A fyddai ymadawiad yr unigolyn yn creu risgiau o ran parhad busnes?*

Felly, yn ogystal ag ystyried pa mor addas oedd ymgeiswyr penodol wrth asesu ceisiadau, ystyriwyd hefyd anghenion y sefydliad a sut y gallai eu hymadawiad effeithio ar feysydd gwasanaeth.

Ar ôl i'r rheolwr llinell ystyried y ceisiadau, aeth y Cyfarwyddwyr priodol ati i’w cymeradwyo ac i roi sylwadau. Yna cafodd y sgoriau eu safoni gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth TGCh.  Cafodd y ddau weld a safoni pob cais ac roeddent yn gallu addasu’r sgoriau a sicrhau bod cysondeb yn y modd roedd y ceisiadau’n cael eu sgorio.

Trafododd y Panel hefyd effaith bosibl y Cynllun a’r modd roedd gwasanaethau’n dibynnu ar ei gilydd. Roedd y Panel yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch pob cais ac ystyried yr effaith bosibl ar Gomisiwn y Cynulliad.  Bu’n rhaid trin a thrafod yr agwedd hon ar y broses yn ofalus i sicrhau bod yr holl ffactorau perthnasol yn cael eu pwyso a’u mesur.

**4. Cadarnhau bod Swyddfa'r Cabinet wedi cymeradwyo’r gyllideb o £1.5m;**

Mae penderfyniadau i gyflwyno Cynllun Ymadael Gwirfoddol wedi'u datganoli ac felly, mater i Gomisiwn y Cynulliad ydyw. Er nad oes angen cymeradwyaeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer y Cynllun na'r gyllideb, bob tro y caiff cynllun o’r fath ei ystyried, mae'r Comisiwn yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Cabinet gan mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y Cynllun yn cael ei roi ar waith o fewn rheolau'r cynllun a nhw hefyd sy’n hysbysu MyCSP,y rhai sy’n gweinyddu Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet rif unigryw’r cynllun ar 23 Awst 2018, sef VENAW7Y.

**5. Gwybodaeth am y broses a ddilynodd y Bwrdd Gweithredol wrth gymeradwyo’r cynnig i gynyddu'r gyllideb o £800,000 i £950,000, ac wedyn i £1.016m, ac a gafodd y cynnydd hwn ei drafod / cymeradwyo gan Gomisiwn y Cynulliad hefyd;**

Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros yr holl benderfyniadau am adnoddau i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, er bod uchafswm o £5m wedi’i bennu ar gyfer unrhyw eitem unigol. Fodd bynnag, mae'r Prif Weithredwr a'r Clerc wedi cynnwys y Comisiwn yn y broses o benderfynu symud ymlaen â’r Cynllun ac mae wedi sicrhau bod y Comisiwn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses. Cafodd y cynnig i gynyddu’r gyllideb ei drafod a’i gytuno gan y Bwrdd Gweithredol a chafodd y Comisiwn wybod am y penderfyniad ar 5 Tachwedd 2018, ac eto wedyn ar 1 Ebrill 2019 pan ddaeth yn amlwg bod angen gwneud hynny.

Cafodd gwybodaeth am y Cynllun ei chynnwys yn nogfen cyllideb 2019-20 a osodwyd. Craffodd y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb hon a chafodd ei chymeradwyo gan y Cynulliad. Yn nogfen y gyllideb, nodwyd  y canlynol:

**Detholiad o ddogfen cyllideb 2019-20 a osodwyd:**

> Nid oes unrhyw sefydliad yn sefyll yn ei unfan o ran ei angen am sgiliau a phrofiad penodol, ac yn yr un modd, mae anghenion newidiol y Cynulliad yn golygu na ellir defnyddio sgiliau rhai staff mwyach i gyflawni blaenoriaethau newydd. Er mwyn helpu i reoli'r newid hwn mewn anghenion adnoddau, rydym wedi cynnig Cynllun Gadael Gwirfoddol (VES) i staff yn y gorffennol. Y fantais o gynnig VES yw ei fod yn galluogi'r Comisiwn i ddefnyddio'r capasiti a ryddhawyd er mwyn darparu'r anghenion blaenoriaeth uchaf ac i addasu'r cymysgedd sgiliau fel ei fod yn cydfynd â heriau presennol a rhai sydd wedi'u nodi ar gyfer y dyfodol. Byddai unrhyw VES yn amodol ar feini prawf cadarn ar gyfer targedu a dethol a hefyd i reoli costau. Gan ein bod yn gwybod y byddwn yn wynebu galwadau ychwanegol am adnoddau i fynd i'r afael â'r ddeddfwriaeth fydd yn deillio o Brexit a Diwygio Trefniadau'r Cynulliad, o fewn terfyn y sefydliad, rydym yn ystyried o ddifri cynnig VES yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2018-19. Gellid ariannu'r VES drwy arbedion busnes gweithredol o gyllidebau staff 2018-19 a 2019-20.

**6. Nifer yr unigolion a dderbyniodd neu a fydd yn derbyn taliadau o dros £95,000 a'r swm / symiau a dalwyd neu a fydd yn cael eu talu;**

Bydd dau unigolyn yn derbyn taliadau o dros £95,000. Bydd gwybodaeth am y taliadau hyn yn cael ei datgelu yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2018-19 Comisiwn y Cynulliad, a gaiff ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2019.

Datgelir bod y taliad cyntaf rhwng £115,000 a £120,000, a hynny i'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol, a chaiff ei dalu ar 28 Mehefin 2019 a datgelir bod yr ail daliad rhwng £125,000 a £130,000, a hynny i'r Cyfarwyddwr Ymgysylltu, a chaiff ei dalu ar 30 Medi 2019.

**7. I ba raddau yr ystyriwyd gwerth am arian, y cyfnod ad-dalu, y gost gyffredinol, yr angen i gadw sgiliau allweddol, a'r gallu neu'r ymdrechion a wnaed i adleoli'r unigolion a dderbyniodd daliadau ymadael o £95,000 neu fwy;**

Cafodd y ffactorau hyn eu hystyried gan y panel safoni a'r panel asesu wrth drafod pob cais. Cyn eu cymeradwyo, cyflwynwyd ffurflen i Swyddfa'r Cabinet oherwydd bod y taliadau dros £95,000. Yn y ddau achos, cafwyd cymeradwyaeth Swyddfa'r Cabinet, a hynny ar sail y wybodaeth fanwl yn cefnogi'r ddau gais a oedd wedi'i chynnwys yn y ffurflenni a gyflwynwyd.

Yn achos taliadau o dros £95,000, rhaid ystyried cyfleoedd i leihau taliadau ac i ddangos gwerth am arian, gan gynnwys trafod y sefyllfa â'r unigolion dan sylw. Gwnaed hynny a llwyddwyd i leihau'r taliadau'n sylweddol o'u cymharu â'r swm y gallai'r unigolion ei hawlio'n swyddogol.

**8. A oedd unrhyw un o'r uwch reolwyr a gafodd ymadael yn wirfoddol yn rhan o'r broses o gynllunio'r cynllun, a oedd unrhyw wrthdaro buddiannau posibl ac a gymerwyd camau i'w lliniaru;**

Nid oedd dim aelodau o staff a wnaeth gais i ymadael yn wirfoddol, gan gynnwys uwch reolwyr, ynghlwm wrth unrhyw gam yn y broses ac nid oeddent yn bresennol yn unrhyw un o'r trafodaethau ffurfiol mewn cyfarfodydd penderfynu perthnasol.

**9. O ystyried bod chwe swydd arall wedi'u hychwanegu at yr uchafswm a bennwyd ar gyfer y sefydliad, ac y bydd 24 o bobl yn gadael o ganlyniad i'r Cynllun, faint o swyddi ydych chi'n disgwyl a gaiff eu harbed yn y pen draw;**

Prif nod y Cynllun oedd gwella effeithlonrwydd yn hytrach na lleihau nifer y swyddi.

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y bydd nifer y swyddi yn y sefydliad yn gostwng o ganlyniad i'r Cynllun. Mae'r Comisiwn yn credu y bydd yr uchafswm presennol, ynghyd â'r hyblygrwydd ychwanegol y mae'r Cynllun yn ei gynnig, yn galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei amcanion cyfredol.

Bydd pob swydd wag yn cael ei gwerthuso'n ofalus ac mae'n bosibl y bydd y dyletswyddau'n cael eu rhannu, yn ehangu neu y bydd y swydd yn cael ei hailddyrannu i gyflawni blaenoriaeth uwch. Bydd y broses hon yn cael ei chwblhau yn ystod yr haf.

**10. Pa fesurau y mae Comisiwn y Cynulliad yn eu defnyddio i fonitro faint yn y bydd y Cynllun yn ei arbed mewn gwirionedd**

Fel y nodwyd yn yr ymateb i'r cwestiwn cyntaf, nid lleihau swyddi oedd prif amcan y Cynllun. Fodd bynnag, y gobaith oedd y byddai'n sicrhau arbedion hirdymor pan fo modd, a hynny drwy osgoi'r angen i gynyddu nifer y swyddi yn y Comisiwn ymhellach yn y tymor byr. Staffio yw'r gost fwyaf yng nghyllideb y Comisiwn ac mae'n cael ei fonitro'n agos o safbwynt y costau ariannol ac o ran nifer y swyddi.

Mae gan y Comisiwn fesurau ar waith ar hyn o bryd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys:

- Cynlluniau gweithlu a chynlluniau gwasanaethau
- Adolygiadau archwilio mewnol o wasanaethau a swyddogaethau
- Gwaith craffu'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu
- Dangosyddion perfformiad a thargedau ymestynnol blynyddol
- Gwaith craffu blynyddol y Pwyllgorau Cyllid a Chyfrifon Cyhoeddus.

## Atodiad 2

**Y MEINI PRAWF A DDEFNYDDIR I ASESU CEISIADAU AR GYFER Y CYNLLUN YMADAEL GWIRFODDOL**

Bydd penderfyniadau ar geisiadau am y cynllun ymadael gwirfoddol yn cael eu gwneud ar sail y meini prawf isod. Bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf gan y Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad llawn â'r gadwyn rheoli llinell berthnasol. Bydd y sgorau a roddir ar gyfer pob un o'r meini prawf yn cael eu hadio at ei gilydd er mwyn cael sgôr cyffredinol, a bydd y Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am gyflwyno'r asesiad hwn, ynghyd â naratif ategol, i banel asesu.

Er mwyn sicrhau gwrthrychedd ac er mwyn atal unrhyw ganfyddiad o wrthdaro buddiannau, ni fydd unrhyw aelod o staff sy'n gwneud cais am y cynllun ymadael gwirfoddol yn chwarae unrhyw ran yn y broses asesu.

**O ran y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau, mae'r rhai sydd â sgorau is yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus na'r rhai sydd â sgorau cyffredinol uwch.**

**CAM 1: Asesiad y Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth**

Wrth ffurfio barn ar sgôr ymgeisydd yn ystod Cam 1 o'r broses, bydd y rheolwr llinell yn cydweithio â'r Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth.

Mae'r meini prawf fel a ganlyn:

**1. A yw sgiliau a chyfraniad yr unigolyn yn cydweddu â'n hanghenion ar gyfer y Chweched Cynulliad/Senedd newydd?**

Nid oes cydweddiad da=3

Mae cydweddiad rhesymol=2

Mae cydweddiad rhagorol=1

Dylid ystyried anghenion hysbys ac anghenion disgwyliedig y Gwasanaeth a/neu'r Gyfarwyddiaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r broses o gyflawni nodau strategol y Comisiwn.

**2. A oes posibilrwydd y gallai'r person hwn lenwi unrhyw swyddi gwag addas sy'n debygol o godi?**

Nac oes=3

Mae'n annhebygol, ond nid yw'n amhosibl=2

Oes, mae posibilrwydd cryf o hyn=1

Dylid ystyried y swyddi gwag posibl sy'n hysbys a'r rhai sy'n debygol o godi, ac i ba raddau y mae'r rhain yn cynnig rôl arall sy'n addas ac yn gymeradwy i'r ddwy ochr.

**3. A fu buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar yn natblygiad yr ymgeisydd a fyddai'n cael ei wastraffu?**

Naddo=3

Buddsoddiad cymedrol o ran amser neu arian=2

Do, bu buddsoddiad sylweddol o fudd i'r Cynulliad=1

Mae'r mater hwn yn ymwneud â'r costau y mae'r Comisiwn wedi eu hysgwyddo wrth hyfforddi a datblygu unigolyn yn ystod y tair blynedd diwethaf, a pha un a fyddai angen gwneud yr un buddsoddiad mewn unigolyn arall a allai ei ddisodli. Mae hyn yn cynnwys y costau sydd ynghlwm wrth gael y cymwysterau proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni rôl benodol a gweithgareddau dysgu a datblygu cyffredinol sy'n berthnasol i swydd unigol.

Os bydd yr angen am y sgiliau hynny'n parhau yn dilyn cais llwyddiannus am ymadawiad cynnar, bydd angen ystyried fel rhan o'r asesiad a fyddai'n rhaid i'r sefydliad fuddsoddi'r un swm eto i hyfforddi rhywun arall, neu a fyddai modd dod o hyd i unigolyn i ddisodli'r sawl sy'n ymadael heb fynd i unrhyw gostau. Byddai Tîm Gweithrediadau yr adran Adnoddau Dynol yn gallu rhoi cyngor ar y mater hwn. Pe byddai angen hyfforddi unigolyn i ddisodli'r sawl sy'n ymadael, dylid adlewyrchu cost yr hyfforddiant hwn yn y data ariannol a ddarperir i'r Panel.

**4. Os bydd yr unigolyn yn gadael, pa lefel o welliant uniongyrchol neu anuniongyrchol o ran effeithlonrwydd y gweithlu a allai ddeillio o hyn?**

Gwelliant sylweddol=3

Gwelliant cymedrol=2

Ychydig iawn o welliant=1

Mae Tîm Gweithrediadau'r adran Adnoddau Dynol a'r tîm Cyllid ar gael i ddarparu gwybodaeth am gostau os oes angen. Yn ogystal ag arbedion ariannol y gellir eu hadnabod, gall buddion effeithlonrwydd ddeillio, er enghraifft, o'r ffaith bod gwaith yn cael ei ailddyrannu neu'n cael ei addasu o fewn tîm.

**5. A fyddai ymadawiad yr unigolyn yn creu risg i barhad busnes?**

Na fyddai=3

Byddai, ond byddai modd rheoli'r risg hon=2

Byddai'n creu lefel uchel o risg=1

**6. A fyddai'r cam o gymeradwyo cais yr unigolyn hwn yn creu risg i enw da'r sefydliad?**

Na fyddai=3

Byddai, ond byddai modd rheoli'r risg hon=2

Byddai'n creu lefel uchel o risg=1

**7. A fyddai ymadawiad yr unigolyn yn hwyluso newid sefydliadol cadarnhaol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?**

Byddai: potensial mawr=4

Byddai: peth potensial=3

Na fyddai=1

Efallai y bydd ymadawiad unigolyn yn arwain at gyfle i ad-drefnu tîm neu faes gwaith ac yn dod â buddion cadarnhaol; er enghraifft, llinellau adrodd byrrach, gan hwyluso'r broses o uno swyddogaethau at ddibenion darparu gwasanaethau gwell.

**Argymhellion y Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth**

Y Cyfarwyddwr/Pennaeth Gwasanaeth fydd yn gyfrifol am ddwyn asesiadau ynghyd ar gyfer ceisiadau yn ystod cam un, ac am wneud argymhelliad mewn perthynas â phob cais.  Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu darparu i'r Panel Penderfyniadau.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/149/IG/19007/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 18 Mehefin 2019

Annwyl Llyr

## Y Cod Ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

Dan atodlen 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae'n ofynnol inni baratoi'r Cod Ymarfer hwn a'i osod gerbron y Cynulliad i gael ei gymeradwyo. Mae'r fersiwn bresennol wedi bod yn ei lle ers 2014 pan gafodd Swyddfa Archwilio Cymru ei chyfansoddi'n llawn fel corff corfforaethol.

Rydym wedi cymryd y cyfle ar ôl penodi'r Archwilydd Cyffredinol newydd ynghyd â chanlyniad peth gwaith ar effeithiolrwydd y Bwrdd, a gwblhawyd yn 2018, i adolygu ac adnewyddu'r Cod. Rydym yn amgáu'r fersiwn ddiwygiedig a osodasom gerbron ar 14 Mehefin 2019.

Mae'r Cod wedi ei symleiddio'n helaeth gan ein bod wedi lleihau'r testun oedd wedi ei ddyblygu rhwng corff y ddogfen a'r atodiad ac wedi casglu'r testun at ei gilydd mewn ffordd ychydig yn wahanol dan benawdau cliriach. Rydym hefyd wedi cryfhau'r cyfeiriadau at God Ymarfer y Bwrdd sy'n llywodraethu cofrestru buddiannau aelodau. Mae hyn yn ein galluogi i nodi'n barhaus unrhyw beryglon i annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

Rydym wedi defnyddio ein profiad dros y pum mlynedd ddiwethaf hefyd i gryfhau'r cyfeiriadau at:

- y trefniadau ymarferol sydd yn eu lle ar gyfer monitro a chynghori ynglŷn ag arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dan adran 17 y Ddeddf; a'r
- prosesau a ddefnyddiwn i baratoi a chymeradwyo dogfennau, megis y cynllun blynyddol, y mae gofyn inni ei lunio dan y Ddeddf.

Rydym wedi cydnabod yn eglur fod effeithiolrwydd y berthynas yn dibynnu gymaint ar y ffordd y mae'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn gweithio gyda'i gilydd o ddydd i ddydd ag y mae ar y fframwaith o rwystrau a gwrthbwysau sydd gennym yn eu lle er mwyn diogelu annibyniaeth archwilio tra'n sicrhau llywodraethu cadarn.

Gobeithiwn y bydd y Pwyllgor yn cael y Cod diwygiedig yn ddogfen gyfeirio ddefnyddiol sy’n rhoi sicrwydd digonol ynghylch y trefniadau sydd gennym yn eu lle i lywodraethu'r berthynas. Os oes unrhyw beth yn aneglur neu os oes gennych unrhyw gwestiynau fydd yn hyrwyddo ei daith drwy’r broses gymeradwyo rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda.

Yn gywir

| | |
|---|---|
| **Adrian Crompton**<br>**Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **Isobel Everett**<br>**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru** |

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Y Cod Ymarfer Perthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi'i baratoi ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o dan baragraff 1 Atodlen 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fe'i gosodir gan yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr un ddarpariaeth.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Diben 4

Fframwaith llywodraethu 4

Annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol 4

Egwyddorion sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru 5

Gofyniad i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer aelodau'r Bwrdd 5

Rolau a chyfrifoldebau 5

Prosesau ar gyfer ymgymryd â swyddogaethau penodol 6

- Monitro a chynghori ynghylch ymarfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol o ran y rhaglen waith 6
- Dirprwyo a chyd-ymarfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol 7
- Darparu gwasanaethau 7
- Amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau 8
- Y cynllun ffioedd 8
- Y cynllun blynyddol 9
- Cyfrifon ac archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru 9
- Adroddiadau blynyddol ac interim 10

Cynnal safonau llywodraethu corfforaethol 10

Cyhoeddusrwydd a sylwadau cyhoeddus 11

Datrys gwrthdaro 11

**Atodiadau**

- Atodiad 1: trosolwg o gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru 12

# Diben

1 Yn ôl unol â gofynion paragraff 1 Atodlen 2 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ('y Ddeddf'), mae'r Cod Ymarfer hwn ('Cod') yn delio â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r Cod yn amodol ar gymeradwyaeth gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Unwaith y mae wedi'i gymeradwyo, bydd rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol gydymffurfio â'i ddarpariaethau.

2 Mae'r Ddeddf yn creu perthynas gymhleth rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Bwriad y Cod hwn yw sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru:

- yn arsylwi, diogelu ac amddiffyn annibyniaeth archwilio statudol yr Archwilydd Cyffredinol; ac
- yn darparu'r sefydliad â'r safonau llywodraethu uchel y mae gan sector cyhoeddus Cymru a phobl Cymru'r hawl i'w disgwyl.

# Fframwaith llywodraethu

3 O dan y Ddeddf, mae swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gorfforaeth undyn. Mae deiliad y swydd yn bersonol gyfrifol am swyddogaethau archwilio ac arolygu mewn perthynas ag amrediad eang o gyrff cyhoeddus. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran y modd y mae'n ymarfer y swyddogaethau hynny, ar yr amod ei fod yn cadw at yr arfer proffesiynol gorau, yn ystyried cyngor a roddir gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn gweithredu'n effeithlon ac yn gost-effeithiol.

4 O dan y Ddeddf, mae Swyddfa Archwilio Cymru:

(a) yn gorfod monitro'r ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymarfer ei swyddogaethau;

(b) yn gallu darparu cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol am y swyddogaethau hynny;

(c) yn gorfod sicrhau bod yr adnoddau sy'n ofynnol er mwyn ymarfer y swyddogaethau hynny yn cael eu darparu, a bod annibyniaeth weithredol swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cael ei diogelu;

(d) yn ymarfer swyddogaethau penodol, ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol neu yn ei rhinwedd ei hun.

5 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â bod yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu iddo. O ganlyniad, mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn gymhleth. Mae'n gyfrifol am:

- ei swyddogaethau archwilio ac arolygu ei hun; ac
- fel aelod o'r Bwrdd, darparu'r adnoddau i ymgymryd â'r swyddogaethau hynny ac i gynghori ar ei weithgareddau a'u monitro.

# Annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol

6 Mae egwyddor annibyniaeth archwilio yn sefydledig o ran deddfwriaeth ac yn y safonau ymddygiad a osodwyd gan gyrff cyfrifyddu proffesiynol.

7 Mae Adran 8 o'r Ddeddf yn nodi bod gan yr Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr o ran y modd y mae'n ymarfer swyddogaethau'r swydd honno ac nad yw'n

ddarostyngedig i gyfarwyddyd neu reolaeth y Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru.

8 Ni fydd Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud unrhyw beth i danseilio annibyniaeth a gwrthrychedd go iawn neu ganfyddedig yr Archwilydd Cyffredinol.

# Egwyddorion sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

9 Mae'r Archwilydd Cyffredinol ac aelodau eraill Swyddfa Archwilio Cymru yn cadw at yr egwyddorion canlynol wrth ymwneud â'i gilydd:

(a) gweithio gyda'i gilydd gyda'r nod cyffredin o gynnal sefydliad archwilio cyhoeddus effeithiol;

(b) diogelu annibyniaeth archwilio'r Archwilydd Cyffredinol;

(c) sicrhau eu bod yn cadw at safonau archwilio moesegol a phroffesiynol;

(d) gweithredu a dangos safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol;

(e) cydnabod a pharchu rolau penodol yr aelodau, gan gynnwys peidio â cheisio gweithredu y tu hwnt i'w swyddogaethau priodol a osodwyd mewn statud (neu sy'n atodol yn briodol i'r swyddogaethau hynny);

(f) gweithio mewn modd agored ac adeiladol, gan ddarparu parch at ei gilydd; a

(g) hysbysu ei gilydd am ddatblygiadau sylweddol yng ngweithrediad y sefydliad a'r amgylchedd y mae'n gweithio ynddo.

# Gofyniad i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer aelodau'r Bwrdd

10 Mae'r Cod Ymddygiad yn gosod safonau ar gyfer ymddygiad aelodau'r Bwrdd. Mae'n atgyfnerthu'r gwerthoedd craidd sydd wrth wraidd gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n bwynt cyfeirio ar gyfer penderfyniadau a chamau gweithredu wrth gyflawni cyfrifoldebau statudol a phroffesiynol y Bwrdd.

11 Mae'n rhaid i aelodau'r Bwrdd gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a chadarnhau eu bod wedi gwneud hyn yn flynyddol. Yn ogystal, maent yn adolygu a diweddaru eu cofrestrau buddiannau bob blwyddyn er mwyn nodi unrhyw wrthdaro posibl, gan gynnwys y rheini a allai beryglu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol.

# Rolau a chyfrifoldebau

12 Mae Atodiad 1 yn crynhoi prif rolau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

# Prosesau ar gyfer ymgymryd â swyddogaethau penodol

## Monitro a chynghori ynghylch ymarfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (Adran 17 o'r Ddeddf)

13 Gall Swyddfa Archwilio Cymru gynghori'r Archwilydd Cyffredinol ac mae'n rhaid iddi fonitro ymarferiad ei swyddogaethau. Rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol roi sylw i unrhyw gyngor a roddir iddo.

14 Rhaid i natur a chwmpas gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru o dan y ddarpariaeth hon beidio â pheryglu annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol. Nid yw'n ceisio cyfarwyddo elfennau unigol o'i raglen waith ond y mae angen gwybodaeth ddigonol arni er mwyn sicrhau bod ganddo'r staff ac adnoddau eraill angenrheidiol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol.

15 Mae'r prosesau ffurfiol fel a ganlyn.

(a) Wrth baratoi'r cynllun blynyddol ar y cyd, mae gan Swyddfa Archwilio Cymru gyfle i ddeall natur a chwmpas rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol a'r adnoddau ariannol ac adnoddau eraill sydd eu hangen i'w chyflawni (y mae angen iddi eu cyflenwi).

(b) Ochr yn ochr â'r cynllun blynyddol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu ei strategaeth gweithlu, sy'n llywodraethu cynlluniau mwy manwl ar gyfer recriwtio, cadw a defnyddio staff ac ar gyfer eu dysgu a'u datblygiad.

(c) Yn ystod y flwyddyn, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn adroddiadau rheolaidd sy'n ei chaniatáu i graffu a monitro’r canlynol:

i alldro yn erbyn y cyllidebau a gytunwyd;

ii cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad ac uchelgeisiau allweddol a nodir yn y cynllun blynyddol; a

iii rheolaeth risgiau strategol o ran cyflawni yn erbyn y nod, yr amcanion, yr uchelgeisiau a'r targedau yn y cynllun blynyddol.

(d) O bryd i'w gilydd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn adroddiadau am y trefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro a sicrhau ansawdd gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a'u heffeithiolrwydd.

(e) Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn darparu diweddariadau amserol am unrhyw faterion sy'n cael neu a allai gael effaith arwyddocaol ar yr ymarferiad priodol o’i swyddogaethau statudol neu rai Swyddfa Archwilio Cymru.

(f) Os bydd angen mwy o adnoddau ar yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith nag oedd wedi eu hamcangyfrif wrth baratoi'r cynllun blynyddol, mae'n cynnig argymhellion ar gyfer ariannu'r gwaith.

16 Mae'r wybodaeth hon yn galluogi Swyddfa Archwilio Cymru i archwilio a herio effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymarfer ei swyddogaethau a’r ffordd mae’r sefydliad yn cael ei reoli yn gyffredinol.

17 Mae'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod bod ymddiriedaeth, cyfathrebu, cyd-ddealltwriaeth a chydweithio hyblyg ar draws ffiniau eu rolau cymhleth mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn bwysig. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn eu galluogi i gynnal eu rolau priodol ar y Bwrdd mewn modd clir a chadarn, o fewn y sefydliad a chyda rhanddeiliaid allanol, mewn modd ystyrlon a chydlynol.

18 Mae'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn cysylltu'n rheolaidd ar sail un-i-un i ddatblygu a chynnal eu perthynas waith. Mae'r trafodaethau hyn yn eu caniatáu i wneud y canlynol:

- diweddaru ei gilydd am faterion cyfredol, gan gynnwys unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg a allai arwain at risgiau strategol uwch neu newydd;
- trafod materion a allai gael eu hystyried gan y Bwrdd yn y dyfodol, gan helpu felly i lywio a rheoli ei flaenraglen waith;
- datblygu cyd-ddealltwriaeth o sut mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu cyflawni;
- darparu cyngor a chyd-gefnogaeth yn ogystal â herio'i gilydd mewn modd adeiladol o fewn ffiniau diogel.

19 Bwriad y trefniadau hyn yw sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu mewn amgylchedd "heb yr annisgwyl" fel eu bod yn gallu cyd-yrru’r gwaith o gyflenwi gwasanaeth archwilio cyhoeddus effeithlon ac effeithiol ar gyfer Cymru.

## Dirprwyo a chyd-ymarfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol (Adran 18 o'r Ddeddf)

20 Mae Adran 18 o'r Ddeddf yn caniatáu i’r Archwilydd Cyffredinol ddirprwyo'i swyddogaethau statudol i gyflogai Swyddfa Archwilio Cymru, unigolyn sy'n darparu gwasanaethau i Swyddfa Archwilio Cymru, neu unigolion o'r fath sy'n gweithio ar y cyd.

21 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod dirprwyaethau o'r fath yn cael eu nodi mewn cynllun dirprwyo y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori arno gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

## Darparu gwasanaethau (Adran 19 o'r Ddeddf)

22 O dan Adran 19, gallai Swyddfa Archwilio Cymru drefnu:

- i dderbyn gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol y gallai fod angen iddo neu'r Archwilydd Cyffredinol eu derbyn;
- i ddarparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i awdurdodau cyhoeddus.

23 Cyn gwneud unrhyw drefniadau o’r fath, bydd rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ymgynghori â’r Archwilydd Cyffredinol.

24 Bydd rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol yn ogystal cyn gwneud unrhyw drefniadau ar gyfer unrhyw awdurdod cyhoeddus, archwilydd cofrestredig neu gorff cyfrifyddu cymeradwy i gydweithio â’r Archwilydd Cyffredinol neu i roi cymorth iddo.

25 Gall yr Archwilydd Cyffredinol wrthod unrhyw waith cytuno os yw'n ystyried nad yw'r adnodd sy'n debygol o fod ar gael yn ddigonol.

## Amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau (Adran 20 o'r Ddeddf)

26 Mae'r amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau yn darparu ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen i dalu am y gwariant cyfalaf a refeniw (gan gynnwys costau nad ydynt yn arian parod) a ysgwyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd yn cynnwys arian ar gyfer rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol.

27 Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn amcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'i raglen waith. Mae'r arian sydd ei angen yn gost gyntaf ar yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu i Swyddfa Archwilio Cymru, na all newid y rhan honno o'r amcangyfrifiad heb gytundeb yr Archwilydd Cyffredinol.

28 Mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn cyd-osod yr amcangyfrif gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf pum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n perthyn iddi. Maent yn rhoi tystiolaeth ar y cyd-amcangyfrif mewn unrhyw wrandawiad y gallai'r pwyllgor cyfrifol ei gynnal amdano.

29 Mae'r pwyllgor cyfrifol yn ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r cyd-amcangyfrif, sydd wedi'i ymgorffori o fewn Cynnig y Gyllideb Flynyddol.

## Y cynllun ffioedd (adrannau 23 a 24 o'r Ddeddf)

30 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn codi ffioedd ar gyfer gwaith archwilio penodol a wneir gan neu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac ar gyfer gwasanaethau y mae'n eu darparu o dan Adran 19 o'r Ddeddf.  Mae ffioedd ond yn cael eu codi yn unol â chynllun a baratowyd o dan Adran 24 o'r Ddeddf. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu'r cynllun o leiaf unwaith y flwyddyn.

31 Fel rhan o'r broses o baratoi cyd-amcangyfrif o incwm a threuliau gyda'r Archwilydd Cyffredinol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y trefniadau ar gyfer gosod cyfraddau ffioedd, sy'n darparu fframwaith ar gyfer y gwir ffioedd a godir ar gyrff archwilio unigol (ac maent felly yn berthnasol ar gyfer asesiad o'r galw am adnoddau yn gyffredinol).

32 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch ei chyfraddau ffioedd arfaethedig ar gyfer pob adran o'i gwaith archwilio. Mae canlyniad yr ymgynghoriad yn hysbysu'r cynllun ffioedd a'r adnoddau sydd eu hangen yn y cyd-amcangyfrif o incwm a threuliau.

33 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gosod y cynllun ffioedd, ac unrhyw ddiwygiadau iddo, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y mae'r pwyllgor cyfrifol yn ei gynnal ar y cynllun ffioedd cyn penderfynu a ddylid ei gymeradwyo ai peidio.[1]

[1] Nid oes angen cael cymeradwyaeth gan y pwyllgor cyfrifol os mai'r unig ddiwygiad yw ymgorffori cyfradd ffioedd sydd wedi'i rhagnodi gan Weinidogion Cymru (Adran 24(5) a (6) o'r Ddeddf).

## Y Cynllun Blynyddol (adrannau 25 i 27 o'r Ddeddf)

34 Mae Adran 25 o’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru baratoi cynllun blynyddol ar y cyd cyn dechrau’r flwyddyn ariannol y mae'n perthyn iddi. Rhaid i gynlluniau o’r fath nodi:

- rhaglenni gwaith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru (h.y. eu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn);
- yr adnoddau sydd ar gael, ac a allai fod ar gael yn y dyfodol, i Swyddfa Archwilio Cymru; a
- sut y defnyddir yr adnoddau hynny i gyflawni'r rhaglenni gwaith.

35 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cytuno y bydd y cynllun blynyddol yn cynnwys eu gweledigaeth ac uchelgeisiau tymor hwy ar gyfer cyfnod o dair blynedd.

36 Bob blwyddyn, mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn paratoi cynllun blynyddol drafft o dan gyfarwyddyd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn craffu'r cynllun, sy'n helpu i hysbysu ei dealltwriaeth o natur a chwmpas rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ac sy'n ffurfio sylfaen ei gweithgareddau monitro o dan Adran 17 o'r Ddeddf. Yn ddarostyngedig i egluro unrhyw faterion neu bryderon am raglenni gwaith ei gilydd, mae Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn cwblhau'r cynllun ar y cyd.

37 Mae Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn gosod y cynllun ar y cyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, gan roi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad gan y pwyllgor cyfrifol. Nid oes dyddiad cau statudol ar gyfer gosod y cynllun ond mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ymdrechu i wneud hyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynllun yn perthyn iddi.

38 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u rhwymo gan y cynllun blynyddol ond mae rhaid iddynt ei ystyried wrth ymarfer eu swyddogaethau.

## Cyfrifon ac archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru (paragraffau 33 i 35 o Atodlen 1 i'r Ddeddf)

39 Yr Archwilydd Cyffredinol yw Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae’n gyfrifol am baratoi’r cyfrifon blynyddol, cadw cofnodion ariannol priodol a chyfrifoldebau eraill a nodir gan bwyllgor cyfrifol y Cynulliad Cenedlaethol.[2]

40 Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am gyflwyno'r cyfrifon i'r archwilydd allanol sydd wedi'i benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol.

41 Mae'r Bwrdd yn ystyried y cyfrifon blynyddol sydd wedi'u paratoi gan yr Archwilydd Cyffredinol, gan ystyried safbwynt y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Bwrdd yn argymell i'r Archwilydd Cyffredinol a ddylai arwyddo'r cyfrifon neu beidio.

42 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y gallai'r pwyllgor cyfrifol ei gynnal mewn perthynas â chyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru neu unrhyw adroddiad a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol gan archwilydd allanol Swyddfa Archwilio Cymru.

[2] Mae cyfrifoldebau ychwanegol fel arfer yn cael eu sefydlu ym memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu.

## Adroddiadau blynyddol ac interim (paragraff 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf)

43 Mae'r adroddiadau blynyddol ac interim yn cwmpasu'r ymarferiad o swyddogaethau mewn perthynas â'r uchelgeisiau a rhaglenni a ddisgrifir yn y cynllun blynyddol.

44 Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru yn llunio'r adroddiadau o dan gyfarwyddyd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr. Mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Cadeirydd yn paratoi'r adroddiadau ar y cyd ar ôl ceisio barn y Bwrdd a gwneud unrhyw newidiadau y maent yn eu hystyried yn briodol.

45 Mae Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol yn gosod yr adroddiadau ar y cyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, gan roi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad y gallai'r pwyllgor cyfrifol ei gynnal arnynt.

46 Am resymau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac i gyflwyno darlun cynhwysfawr o berfformiad trwy gydol y flwyddyn, mae'r adroddiad blynyddol sy'n ofynnol gan baragraff 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn cael ei baratoi gyda'r adroddiad blynyddol a chyfrifon sy'n ofynnol gan baragraff 33 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ac maent yn cael eu gosod fel dogfen sengl i'w hystyried gan y pwyllgor cyfrifol.

# Cynnal safonau llywodraethu corfforaethol

47 Fel Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn atebol am stiwardiaeth yr adnoddau. Mae ei gyfrifoldebau yn cael eu manylu ym mharagraff 33 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ac fel y'u nodir gan bwyllgor perthnasol y Cynulliad, fel arfer yn y Memorandwm i Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru.

48 Mae'n rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu yn unol â safonau cywirdeb uchel. Mae hyn yn cynnwys cael y canlynol ar waith:

- strwythur llywodraethu sy'n trosglwyddo, dirprwyo, gweithredu a gorfodi penderfyniadau;
- rheolaethau mewnol cadarn i ddiogelu, sianelu a chofnodi adnoddau fel y bwriadwyd;
- trefniadau i roi cyfrifon amserol, tryloyw a realistig o'r busnes a phenderfyniadau.

49 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro'r trefniadau llywodraethu a systemau rheoli mewnol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol. Fe'i cefnogir yn y rôl honno gan ddau bwyllgor, ar gyfer archwilio a sicrwydd risg ac ar gyfer taliadau ac adnoddau dynol, ac mae'r ddau ohonynt yn gweithredu mewn capasiti ymgynghorol.

50 Wrth greu ei fframwaith llywodraethu corfforaethol, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried arfer da. Ar sail wirfoddol, mae'n cwblhau hunanasesiad yn erbyn y Cod Ymarfer Da ar gyfer llywodraethu corfforaethol o fewn adrannau'r llywodraeth ganolog cyn belled ag y mae'n berthnasol.

51 Mae'r Cadeirydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn adrodd am y trefniadau hyn yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae Swyddfa Archwilio Cymru, gyda'r Archwilydd Cyffredinol yn arwain trwy ei rôl fel y Swyddog Cyfrifyddu, yn ceisio nodi a rheoli risgiau yn effeithiol, gan gynnal ei busnes mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

```

# Cyhoeddusrwydd a sylwadau cyhoeddus

52 Mae cyhoeddusrwydd a sylwadau ar waith yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn agweddau atodol annatod o'u swyddogaethau adrodd cyhoeddus priodol. Mae'r swyddogaethau hynny yn eithaf gwahanol ac mae'n bwysig fod yn glir ynghylch pwy all wneud sylw cyhoeddus mewn perthynas â nhw.

53 Ni all y Cadeirydd nac aelodau anweithredol Swyddfa Archwilio Cymru wneud sylwadau am gwestiynau ynghylch safbwynt a barn archwilio, gan gynnwys detholiad a chynllun archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian, sy'n faterion ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol.

54 Gall y Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill Swyddfa Archwilio Cymru, gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd, wneud sylwadau yn gyhoeddus ar agweddau eraill (h.y. nad ydynt yn rhai archwilio) o waith Swyddfa Archwilio Cymru yn gyffredinol ac ar lywodraethu'r sefydliad.

55 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â'r Cadeirydd ynghylch unrhyw sylwadau y mae'n bwriadu eu gwneud yn rhinwedd ei swydd fel Prif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru neu pan a wnelo sylw o'r fath â materion (gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag archwilio) a allai gael effaith ar enw da Swyddfa Archwilio Cymru.

# Datrys gwrthdaro

56 Yn achos anghytundeb rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, cyfeirir testun yr anghydfod at yr aelodau mewn cyfarfod o'r Bwrdd i'w ddatrys, heblaw am faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau archwilio ac arolygu statudol yr Archwilydd Cyffredinol (lle y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud penderfyniad terfynol).

57 Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn briodol i Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol Swyddfa Archwilio Cymru weithredu fel cyfryngwr mewn anghytundebau rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru.
```

# Atodiad 1

## Trosolwg o gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru

| Aelod o'r Bwrdd | Prif gyfrifoldebau |
|---|---|
| Yr holl aelodau | Ymarfer ar y cyd swyddogaethau statudol Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys:<br>• gwneud rheolau at ddiben rheoleiddio ei gweithdrefnau ei hun;<br>• dirprwyo swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru lle y caniateir iddynt wneud hynny;<br>• gwneud argymhelliad i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â phenodi archwilydd allanol i Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• paratoi cynllun, i'r Cynulliad Cenedlaethol ei gymeradwyo, sy'n ymwneud â chodi ffioedd gan Swyddfa Archwilio Cymru ac am adolygu (a diwygio os oes angen) y cynllun hwnnw o leiaf unwaith y flwyddyn;<br>• dynodi (gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol) unigolyn i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol dros dro os bydd y swydd yn wag neu os yw'r Archwilydd Cyffredinol sy'n ddeiliad y swydd yn amharod i gyflawni ei swyddogaethau neu'n methu â gwneud hynny;<br>• gwneud trefniadau o dan Adran 19 Deddf 2013 i ddarparu neu dderbyn gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol yn amodol ar ymgynghori â'r Archwilydd Cyffredinol pan fydd angen;<br>• gwneud darpariaeth am unrhyw daliadau ychwanegol i'w gwneud i'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer treuliau yr aeth iddynt yn briodol ac yn angenrheidiol yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr;<br>• darparu adnoddau i arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fel sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol;<br>• cyflogi staff i gynorthwyo o ran arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;<br>• caffael gwasanaethau at ddibenion swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol;<br>• cadw dogfennau neu wybodaeth a gafwyd yn ystod gwaith at ddibenion swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol neu fel arall; a<br>• chadw cofnodion mewn perthynas â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.<br>Anelu at gyflawni pob swyddogaeth mewn modd effeithlon ac yn gosteffeithiol.<br><br>Ymarfer swyddogaethau ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol fel a ganlyn: |

| Aelod o'r Bwrdd | Prif gyfrifoldebau |
|---|---|
| | • paratoi a gosod amcangyfrif blynyddol o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru, y mae'n rhaid iddo gwmpasu'r adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i arfer ei swyddogaethau;<br>• paratoi cynllun blynyddol;<br>• paratoi Cod Ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol;<br>• cydymffurfio â'r Cod Ymarfer a gymeradwywyd gan y Cynulliad.<br>Ymarfer cyfrifoldebau ymhlyg bwrdd trwy ddarparu arweinyddiaeth ar y cyd mewn modd sy'n gydnaws â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, gan gynnwys ei ddyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu. Yn benodol, mae'r Bwrdd:<br>• yn gosod a gyrru cyfeiriad strategol Swyddfa Archwilio Cymru, gan ystyried cynlluniau ac uchelgeisiau'r Archwilydd Cyffredinol;<br>• yn gosod gwerthoedd ac ymddygiadau Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• fel rhan o baratoi'r cynllun blynyddol, yn cynghori ar ddyraniad adnoddau ariannol a dynol er mwyn cyflawni'r nod ac amcanion;<br>• yn goruchwylio rheoli adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru ac yn monitro cynnydd yn erbyn mesurau ac uchelgeisiau perfformiad;<br>• yn bodloni ei hun ei fod yn derbyn gwybodaeth mewn modd amserol ar ffurf ac o ansawdd sy'n ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol;<br>• yn sicrhau bod yr Archwilydd Cyffredinol, yn ôl rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnal systemau llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol cadarn a thryloyw sy'n gyson ag arfer da, gan adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon;<br>• yn cynghori ar ac yn goruchwylio prosesau newid, gan annog arloesedd er mwyn gwella gallu Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni;<br>• yn rhoi sylw dyledus i gynllunio ar gyfer olyniaeth ac yn bodloni ei hun fod cynlluniau ar waith i gynnal cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd, ei bwyllgorau ac o fewn y sefydliad;<br>• yn awdurdodi'r defnydd o'r Sêl Gorfforaethol. |
| Yr holl aelodau ar wahân i'r Archwilydd Cyffredinol | Monitro a chynghori ar yr ymarferiad o swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.<br>Paratoi ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol y cyd-amcangyfrif o incwm a threuliau, y cynllun blynyddol a'r Cod Perthynas. |

| Aelod o'r Bwrdd | Prif gyfrifoldebau |
|---|---|
| Yr holl aelodau anweithredol | Penodi (os bernir ei fod yn addas) yr aelod-gyflogai a argymhellir gan yr Archwilydd Cyffredinol.<br>Penodi a gosod telerau are gyfer y ddau aelod-gyflogai a etholwyd yn unol â chanlyniad pleidlais staff.<br>Penderfynu ar delerau'r penodiad ar gyfer yr aelod-gyflogeion.<br>Ystyried a ddylid terfynu penodiad aelod-gyflogai os bydd un o'r amodau a nodwyd ym mharagraff 21 Atodlen 1 Deddf 2013 yn digwydd. |
| Y Cadeirydd | Ymarfer swyddogaethau ymhlyg y Cadeirydd, gan gynnwys:<br>• arwain trafodion y Bwrdd, gan gynnwys sicrhau bod yr holl aelodau yn cael cyfle i gyfrannu at drafodaeth gytbwys a phriodol am faterion;<br>• goruchwylio effeithiolrwydd y bwrdd ar lefel unigol a chyfunol, gan gynnwys trwy sicrhau mewnbwn annibynnol allanol lle bo'n briodol;<br>• cefnogi a chynghori'r Prif Weithredwr ac uwch-swyddogion eraill lle bo'n briodol, gan barchu'r ffiniau rhwng rôl y Bwrdd a rôl y tîm rheoli;<br>• gweithredu fel llefarydd ar ran Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• fel sy'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol, cyfranogi at benodi aelodau anweithredol a'r Archwilydd Cyffredinol.<br>Cyflwyno i archwilydd Swyddfa Archwilio Cymru y cyfrifon sydd wedi'u paratoi gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddu.<br>Ar y cyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol:<br>• gosod y cynllun blynyddol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;<br>• gosod y Cod Ymarfer sy'n ymdrin â'r berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol;<br>• paratoi a gosod, cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, adroddiad blynyddol ar ymarfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r cynllun blynyddol;<br>• paratoi a gosod, o leiaf unwaith yn ystod pob blwyddyn ariannol, adroddiad interim ar ymarfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â chynnydd yn erbyn y cynllun blynyddol. |

| Aelod o'r Bwrdd | Prif gyfrifoldebau |
|---|---|
| Archwilydd Cyffredinol | Ymarfer yr amrediad o swyddogaethau archwilio ac ati o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Deddfau Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a 2013, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a deddfiadau amrywiol eraill.<br>Ymarfer disgresiwn o ran sut mae swyddogaethau'n cael eu hymarfer, yn ddarostyngedig i'r canlynol:<br>• ceisio cynnal y swyddogaethau hynny yn effeithlon ac yn gosteffeithiol;<br>• ystyried y safonau a'r egwyddorion y byddai disgwyl i ddarparwr proffesiynol arbenigol o wasanaethau cyfrifyddu neu archwilio eu dilyn; ac<br>• ystyried cyngor a roddir gan Swyddfa Archwilio Cymru.<br>Cyhoeddi Cod Ymarfer Archwilio sy'n rhagnodi'r ffordd y dylid cynnal rhai swyddogaethau penodol.<br>Paratoi cynllun dirprwyo swyddogaethau ac ymgynghori ar hwn â Swyddfa Archwilio Cymru.<br>Ymarfer swyddogaethau ymhlyg (a dirprwyedig) Prif Weithredwr.<br>Ymarfer swyddogaethau Swyddog Cyfrifyddu.<br>Argymell unigolyn i fod yn aelod penodedig o Swyddfa Archwilio Cymru. |
| Aelod-gyflogai Penodedig | Fel pob aelod. |
| Aelod-gyflogai Etholedig | Fel pob aelod. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru